Rhagair gan Gadeirydd Cyfle Ffestiniog

Mae bodolaeth Cyfle Ffestiniog ynddo'i hun yn fynegiant o'r awydd am newid yn Ffestiniog – ardal a wynebodd chwyldro cymdeithasol ac economaidd gwirioneddol dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, ac sydd wedi ymdrechu i ddod o hyd i'w swyddogaeth yn y Gymru newydd.

Yr oedd yr ymarferiad Cynllunio Go Iawn, a wnaed rhwng Hydref - Rhagfyr 2000 a Ionawr 2001, yn gyfle ymarferol i drigolion Ffestiniog fynegi eu gobaith personol am newid a'u syniadau am sut i wneud hynny – a manteisiodd cannoedd ar y cyfle, gan gymryd rhan yn yr ymgynghori.

Yr oedd yn arbennig o galonogol i mi ac aelodau Cyfle i weld brwdfrydedd ac awydd plant a phobl ifainc lleol i weld adfywio'r ardal a'i gweld yn dod yn fangre lle gallant gael gwaith a mwynhau safon byw teg. Gobeithio y bydd yr ymrwymiad hwn gan y genhedlaeth nesaf yn ysbrydoli pawb, yn sefydliadau ac unigolion, i fwrw ati i gefnogi gweithgareddau yn yr ardal.

Am y tro cyntaf, mae'r ymarferiad hwn wedi blaenoriaethu a gwrando ar ddymuniadau'r bobl leol, a dweud pa gamau i'w cymryd. Mae'r adroddiad hwn - canlyniad yr ymarferiad Cynllunio Go Iawn – yn erfyn gwerthfawr i'r bartneriaeth eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a chymdeithasol sy'n gweithio yn ardal Ffestiniog, gan ei bod yn eu galluogi i ganolbwyntio eu hymdrechion ar y blaenoriaethau a nodwyd. Ond nid dogfen i sylw cyrff swyddogol ac awdurdodau yn unig yw hon. Mae gan bawb sy'n byw neu'n gweithio yn Ffestiniog ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r amcanion hyn, a chyfrifoldeb i gefnogi a helpu i adfywio'r ardal lle bo modd.

Mae Cyfle eisoes wedi ymgorffori'r syniadau a'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr ymarferiad Cynllunio Go Iawn, sy'n berthnasol i'w waith i adfywio'r ardal yn economaidd, yn ei Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae hefyd wedi sefydlu cwmni cymunedol i'w gweithredu. Buaswn yn annog eraill i wneud yr un peth a gweithredu ar yr adroddiad hwn i gyflawni dymuniadau pobl Ffestiniog.

Yn olaf, carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i gefnogi'r digwyddiadau naill ai trwy gymryd rhan neu helpu; mawr werthfawrogwyd eich cyfraniad.

Bryn Williams
Cadeirydd - Cyfle Ffestiniog